TGAU

# CBAC TGAU
# CELF A DYLUNIO

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cyffredinol

**C: Yn y fanyleb flaenorol, roedd gofyn i'r dysgwyr gwblhau 'Datganiad Creadigol' a oedd yn darparu cyd-destun i'r gwaith i gefnogi'r broses gymedroli. Gan nad yw hyn bellach yn ofyniad, beth sy'n ofynnol gan y dysgwyr yn lle hyn?**
A: Gall dysgwyr ddefnyddio eu gwaith paratoi yn Uned 1 ac Uned 2 i ddangos anodiadau ategol yn eu gwaith. Mae'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar gyfer Uned 1 – Portffolio ac Uned 2 – Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn egluro hyn ymhellach.

**C: A ddylid annog ymgeiswyr i weithio o ddeunydd ffynhonnell cynradd i ddatblygu eu syniadau a'u harsylwadau?**
A: Argymhellir hyn yn gryf ac ymhelaethir arno yn y Canllawiau Addysgu.

**C: A all athrawon roi adborth i ddysgwyr unigol am eu gwaith ar ôl iddynt ddechrau'r portffolio (Uned 1)?**
A: Gall athrawon roi adborth i ddysgwyr ar lefel gyffredinol yn Uned 1 ac yng nghyfnod paratoi (Rhan 1) Uned 2. Yn ystod Rhan 2, y cyfnod o waith dwys a manwl, ni all yr athro ddarparu unrhyw gyngor nac adborth ar waith dysgwyr - cyfeiriwch at dudalen 20 y Fanyleb. Mae arweiniad pellach ar gyfer cynnal asesiad di-arholiad wedi'i ddarparu gan y CGC yn y ddogfen ganlynol: Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad

## Uned 1

**C: A all dysgwyr ddechrau gweithio ar Uned 1 ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs (h.y.: fis Ionawr Blwyddyn 10 neu fis Medi Blwyddyn 11)?**
A: Gellir dechrau Uned 1 ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs, gall y ganolfan ddewis hyn. Mae'r fanyleb yn dangos amserlen a argymhellir ar dudalen 19 y gallai canolfannau ddewis ei dilyn.

**C: Os nad yw dysgwr yn hoffi'r testun a ddewiswyd gan yr athro ar gyfer Uned 1, a yw'n cael dewis un ei hun?**
A: Ydy, ar ôl ymgynghori â'r athro dosbarth i sicrhau ei fod yn briodol. Yn Uned 2, rhaid dewis testunau o'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

**C: A gaiff y dosbarth cyfan wneud yr un testun fel y gall yr athro eu rheoli drwy Uned 1?**
A: Caiff, ond dylid annog y dysgwyr i amrywiaethu fel bod y gwaith yn bersonol.

**C: A all dysgwyr ddod yn ôl i weithio ar Uned 1 ar ôl cwblhau Uned 2?**
A: Na, rhaid cwblhau Uned 1: Portffolio cyn y cyflwynir Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr. Caiff hyn ei amlinellu ar dudalen 4 y fanyleb.

## Uned 2

**C: Dyddiad rhyddhau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr yw 2 Ionawr ym mlwyddyn y dyfarnu, ond bydd athrawon nawr yn cael mynediad i'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn y mis Rhagfyr cyn hyn. A allwn ni ofyn i'r dysgwyr ddechrau gweithio ar hyn ym mis Rhagfyr?**
A: Na, rhaid i'r wybodaeth aros yn ddiogel tan ar ôl 2 Ionawr. Mae hyn ar gyfer athrawon yn unig er mwyn iddynt baratoi adnoddau ar gyfer dysgwyr.



© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: Pwy ddylai benderfynu pa 'syniad mawr' y mae dysgwyr yn ei wneud ar gyfer Uned 2 - Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?**
A: Rhaid cynnig y papur digidol Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol cyfan i ddysgwyr a dylent ddewis eu testun eu hunain.

**C: Mae fy nghanolfan wedi cynnal y cyfnod o 10 awr dan oruchwyliaeth yn ystod amser gwersi yn y gorffennol - sut byddwn yn gwneud hyn nawr bod angen dechrau gyda sesiwn sy'n para o leiaf dwy awr?**
A: Mae'n un o ofynion y fanyleb (gweler tudalen 20) a rhaid i ganolfannau ddarparu sesiwn sy'n para o leiaf 2 awr i ddechrau. Gellir darparu cyfnodau hirach o amser i weddu i ofynion y ganolfan.

**C: Mae gen i ddysgwr sydd heb gyflwyno Uned 2: Rhan 2. A fydda i'n dal i allu cyflwyno marc ar eu cyfer?**
A: Na, rhaid i'r dysgwr gwblhau'r ymateb terfynol yn ystod Rhan 2 (y cyfnod o waith dwys a manwl).

**C: A oes angen i ymgeiswyr gwblhau'r 10 awr lawn o'r cyfnod amser dan oruchwyliaeth?**
A: Gellir rhannu'r 10 awr mewn ffordd sy'n addas i'r ganolfan, ond mae'n rhaid i'r ddwy awr gyntaf fod yn olynol. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau o leiaf y cyfnod hwn o ddwy awr.

## Asesu

**C: Mae’r iaith a ddefnyddir yn rhestr wirio Amcanion Asesu’r hen fanyleb yn anodd i'r dysgwyr - a fydd hon yn haws ei defnyddio?**
A: Nid oes 'rhestr wirio' ar wahân bellach yn gysylltiedig â'r Amcanion Asesu. Mae geiriad yr Amcanion Asesu wedi cael ei wneud yn gliriach yn y meini prawf marcio. Dylai athrawon ddefnyddio'r iaith sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fandiau marcio o fewn yr Amcanion Asesu yn rheolaidd mewn gwersi i sicrhau bod dysgwyr yn deall y termau penodol a ddefnyddir. Gweler y Cynllun Marcio i Uned 1 ac Uned 2 yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar gyfer yr iaith benodol i'w defnyddio.

**C: A ddylai dysgwyr gyflwyno popeth y maent wedi'i wneud yn ystod y cwrs i'w asesu?**
A: Ni ragwelir y dylid cyflwyno'r holl waith i'w asesu ond mae'n bwysig bod dysgwyr yn dangos y dystiolaeth sy'n bodloni'r holl amcanion asesu orau. Dylai'r dysgwyr ddethol a chyflwyno eu gwaith i'w asesu. Mae hyn yn berthnasol i Uned 1 a Rhan 1 a 2 Uned 2; rhaid nodi'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl wrth gyflwyno. Gweler y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol am fwy o wybodaeth (Uned 1, tudalen 4 ac Uned 2, tudalen 5).


© WJEC CBAC Ltd 2025.